COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MAWRTH 19 TACHWEDD 2024 AM 14:30

Yn Bresennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

N Farr	J Gebbie	HM Williams	E L P Caparros
P Davies	M J Evans	M Jones	

Swyddogion:

Oscar Roberts	Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd
Carys Lord	Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid
Claire Marchant	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Janine Nightingale	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Kelly Watson	Prif Swyddog - Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol
Mark Shephard	Prif Weithredwr
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc
Michael Pitman	Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd

Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorydd Melanie Evans fuddiant personol yn Eitem 9 yr Agenda fel Cynghorydd Tref Pencoed a llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Pencoed a Chroesty.
Datganodd y Cynghorydd Jane Gebbie fuddiant personol yn Eitem 9 yr Agenda gan ei bod yn llywodraethwr AALl yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig

389. Cymeradwyo Cofnodion

Y Penderfyniad a Wnaed	PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22/10/2024 fel cofnod gwir a chywir.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

390. Adolygiad Haen Ganol

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol adroddiad a oedd yn • rhoi diweddariad mewn perthynas â'r cyfeiriad yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion yng Nghymru (mewn ymateb i gasgliadau 'Adolygiad Haen Ganol' Llywodraeth Cymru); • ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddatblygu model gweithredu yn y dyfodol fel yr amlinellwyd yn fras yn yr adroddiad hwn; ac yn; • gofyn i'r Cabinet dderbyn a chymeradwyo adroddiadau pellach sy'n manylu ar oblygiadau ariannol penodol a'r model terfynol (yng ngwanwyn 2025 mae'n debyg). Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod gan fodel gweithredu presennol Consortiwm Canolbarth y De ddwy swyddogaeth graidd, mae tabl 3 yr adroddiad yn nodi'r swyddogaethau hyn a brasamcan yr adnoddau cyfredol a ddyrannwyd i bob un. Yn seiliedig ar yr adborth gan benaethiaid ac archwiliad ehangach o weithio o ysgol i ysgol fel ysgogydd gwelliant, dywedodd fod consensws ar draws y pum awdurdod lleol yn rhanbarth Consortiwm Canolbarth y De i elfennau craidd model gweithredu yn y dyfodol, nodwyd yr elfennau craidd wedi'u nodi yn 3.12 o'r adroddiad. Roedd Atodiad 1 yn manylu ar sut y gallai hyn weithredu, gyda model gweithredu mwy manwl, generig, posib yn Atodiad 2. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid fod hwn yn waith ar y gweill ac felly byddai gwaith a dilyniant parhaus i'w wneud o hyd. Ychwanegodd y byddai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn darparu mwy o gynigion i'r Cabinet eu hystyried tua gwanwyn 2025. Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd a fyddai hyn yn cael ei gynnwys o fewn y gyllideb eleni neu a fyddai disgwyliadau ar gyfer cyllid pellach yn y dyfodol.

	Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc ei bod yn anodd darparu ffigur nes bod y model gweithredu wedi'i lunio, fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen rhywfaint o gyllid pellach ar gyfer y cyfnod pontio. PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet: • yn cymeradwyo datblygu model gweithredu yn y dyfodol fel yr amlinellwyd yn fras yn yr adroddiad hwn; ac yn; • cytuno i dderbyn a chymeradwyo adroddiadau pellach yn manylu ar oblygiadau ariannol penodol a'r model terfynol (yng ngwanwyn 2025 yn ôl pob tebyg) ac yn aros am ragor o wybodaeth am y cyllid posib ar gyfer y cyfnod pontio.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

391. Adeiladu ar Gryfderau, Gwella Bywydau - Cynllun tair blynedd ar gyfer gofal a chymorth cynaliadwy i oedolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Tair Blynedd a Chynllun Gweithredu Un Flwyddyn ar gyfer 2024/2025 ar gyfer Gofal a Chymorth Cynaliadwy i Oedolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n nodi ein hamcanion, ein blaenoriaethau a'n cynlluniau strategol. Nododd y Cynllun Tair Blynedd saith maes blaenoriaeth i ganolbwyntio arnynt, gydag amcanion allweddol ar gyfflawni'r blaenoriaethau hyn. Nodwyd y cynllun yn Atodiad 1 yr adroddiad. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei bod yn bwysig addasu'r hyn a wnawn yn barhaus i gyd-fynd ag anghenion y rheini sydd angen y gwasanaethau hyn, ac mae'r cynllun tair blynedd hwn yn rhoi'r sicrwydd hwnnw. Ychwanegodd bod cyfarfod pobl yn y gymuned sydd â straeon am sut mae'r gwasanaethau hyn wedi eu helpu i fyw bywyd normal yn codi calon, a thynnodd sylw at yr angen am y gwasanaethau hyn ac roedd y Cynllun wedi helpu i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn fwy effeithiol. Roedd y pwyntiau trafod yn cynnwys:

	• materion ariannu a'r angen i newid dyluniad a darpariaeth gwasanaethau, mewn cyfnod pan oedd y cynnydd yn y galw am wasanaethau yn wynebu gofynion arbedion. • Peidio â dyblygu'r gwasanaethau a ddarperir gan drydydd partïon. • Sicrhau ein bod yn gweithio'n agosach gyda'n partneriaid trydydd sector. PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Tair Blynedd (Atodiad 1) a'r Cynllun Gweithredu Un Flwyddyn ar gyfer 2024/2025 (Atodiad 2) ar gyfer Gofal a Chymorth Cynaliadwy i Oedolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

392. Adroddiad Blynyddol ar Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023/24

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad i'r Cabinet ar Adroddiad Blynyddol ar Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023/24 i'w gymeradwyo. Eglurodd fod Adroddiad Blynyddol 2023/24 yn cynnwys gwybodaeth ystadegol mewn perthynas â'r sylwadau a'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gofal Cymdeithasol Plant. Cafodd y rhain eu dadansoddi yn adran 3 yr adroddiad. Defnyddiwyd yr ystadegau hyn hefyd i lywio datblygiad gwasanaeth o flwyddyn i flwyddyn. Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Rheolwr Canmoliaeth a Datrys Cwynion gan ei bod wedi bod yn allweddol wrth sicrhau ein bod yn cydymffurfio yn ogystal â chyflwyno'r wybodaeth yn glir mewn adroddiadau. Roedd hefyd yn amlwg bod y cwynion wedi lleihau ers y llynedd a oedd yn braf i'w weld. Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau a oedd staff yn derbyn hyfforddiant gloywi ar sut i ymdrin â chwynion yn effeithiol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Lles ei bod yn hyderus bod y gwelliannau a wnaed yn gyffredinol, a'r gostyngiad yn y cwynion cyffredinol ers y llynedd, yn arwydd da o hyfforddiant staff a'u datblygiad.

	PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2023/24 (ynghlwm fel Atodiad 1).
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

393. Diweddariad i Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Prif Swyddog dros Gyllid, Tai a Newid adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet ar gyfer fersiwn wedi'i diweddaru o Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor. Eglurodd fod y diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol wedi'u dangos trwy newidiadau wedi'u tracio yn Atodiad 1, ac mae fersiwn lân o'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol ynghlwm yn Atodiad 2. Bydd adroddiad yn mynd gerbron y Cyngor i ddiwygio'r Cyfansoddiad i ymgorffori'r diwygiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Amlygodd yr Arweinydd fod llawer o wasanaethau'r Cyngor yn dal i ddefnyddio papur, eto roedd gwasanaethau eraill wedi symud yn gyfan gwbl i ddigidol ac felly'n gobeithio y gallem symud mwy o wasanaethau i ddigidol lle y bo hynny'n bosib. PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet: • yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol a amlinellir yn Atodiad 1; • yn nodi y bydd adroddiad ar wahân yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i ymgorffori'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol diwygiedig yn y Cyfansoddiad, fel sydd ynghlwm yn Atodiad 2.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

394. Rheoli’r Trysorlys – Adroddiad Hanner Blwyddyn hyd at fis Medi 2024

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Prif Swyddog dros Gyllid, Tai a Newid adroddiad a oedd yn: • amlygu Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod hyd at fis Medi 2024, ac yn; • sicrhau cydymffurfiaeth â gofyniad 'Rheoli’r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer' (Cod CIPFA) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) . Amlinellodd y cyfraddau chwyddiant ar gyfer y 12 mis diwethaf hyd at fis Medi 2024 a beth oedd hyn yn ei olygu i strategaeth rheoli’r trysorlys y Cyngor. Nodwyd crynodeb o hyn yn Atodiad A yr adroddiad. Nododd Tabl 1 sefyllfa ddyled a buddsoddiad allanol y Cyngor ar 30 Medi 2024 ac ychwanegodd nad oedd unrhyw fuddsoddiad hirdymor (hyd gwreiddiol o 12 mis neu fwy) yn weddill ar 30 Medi 2024. Diolchodd yr Arweinydd i'r Swyddogion sy'n gweithio'n ddiflino ar hyn ac yn sicrhau bod ein harian yn gweithio'n galetach i ni yn barhaus. Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad beth oedd ein dyled o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill Eglurodd y Prif Swyddog dros Gyllid, Tai a Newid ei fod yn amrywio ledled Cymru yn dibynnu ar y math o fenthyca sydd ei angen, er enghraifft, gallai Caerdydd fenthyg ar gyfer prosiectau adfywio mawr iawn. Roedd CBSP rhywle yng nghanol yr Awdurdodau Lleol o ran ein benthyca. <u>PENDERFYNWYD:</u> bod y Cabinet: • yn nodi gweithgareddau rheoli’r trysorlys ar gyfer 2024-25 ar gyfer y cyfnod hanner blwyddyn, 1 Ebrill 2024 hyd at 30 Medi 2024. • yn nodi Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys am yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2024 yn erbyn y rheini a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25.

Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

395. Diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf - Chwarter 2 2024-25

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Prif Swyddog dros Gyllid, Tai a Newid adroddiad a oedd yn: • Darparu diweddariad i'r Cabinet ar sefyllfa'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024-25 ar 30 Medi 2024 (Atodiad A). • Ceisio cytundeb gan y Cabinet i gyflwyno adroddiad i'r Cyngor i'w gymeradwyo o raglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2024-25 i 2033-34 (Atodiad B). • Gofyn i'r Cabinet nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill gwirioneddol ar gyfer 2023-24 a'r rhai gwirioneddol ar gyfer 2024-25 (Atodiad C). Crynhodd y Prif Swyddog dros Gyllid, Tai a Newid y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth yn ogystal â'r adnoddau sydd ar gael a nodwyd yn adran 3 yr adroddiad. Hefyd, darparodd ddadansoddiad o'r cynlluniau y nodwyd eu bod yn gofyn am lithriad cyllideb i flynyddoedd i ddod (2025-26 a thu hwnt). Gwnaeth yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad sylw ar y pethau cadarnhaol yn yr adroddiad hwn ond nid yw'n tanamcangyfrif yr heriau a fu wrth gyrraedd y cam hwn. Gofynnodd yr Aelodau Cabinet gwestiynau amrywiol, yn gofyn am eglurhad ar nifer o gynlluniau a'u gwybodaeth ac atebwyd y rhain gan y Prif Swyddog dros Gyllid, Tai a Newid. PENDERFYNWYD: bod y Cabinet: • yn nodi diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf - Chwarter 2 2024-25 y Cyngor hyd at 30 Medi 2024 (Atodiad A). • yn cytuno y dylid cyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B) i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

	• yn gofyn i'r Cabinet nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill gwirioneddol ar gyfer 2023-24 a'r rhai gwirioneddol ar gyfer 2024-25 (Atodiad C).
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

396. Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu 2025-2028 Deddf Gamblo 2005

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol dros Wasanaethau Rheoliadol a Rennir adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu'r Cyngor ar gyfer y cyfnod tair blynedd nesaf 2025 i 2028, ac i anfon y polisi ymlaen i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol a'i gyhoeddi yn unol â'r rheoliadau. Rhoddodd grynodeb o'r newidiadau arfaethedig a amlinellwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus gydag amrywiaeth o randdeiliaid, ar 16 Mai 2024 cyhoeddodd y Llywodraeth ei chasgliadau a'i chynigion a fydd yn effeithio ar y sector ledled Prydain Fawr. Nodwyd y newidiadau arfaethedig yn adran 3 yr adroddiad. Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad yr adroddiad a dywedodd y gallai'r polisi gael ei adolygu o fewn y cylch 3 blynedd os oes angen. Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd pam y rhestrwyd Tân ac Achub De Cymru fel yr ymgynghorwyr. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol dros Wasanaethau Rheoliadol a Rennir fod y rhain yn ymgynghorai rheolaidd ar yr holl faterion sy'n ymwneud â gamblo ac y byddent yn codi unrhyw bryderon diogelwch pe bai rhai. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu arfaethedig fel sydd ynghlwm yn Atodiad A, a'i anfon ymlaen i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol a'i gyhoeddi yn unol â'r rheoliadau.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

397. Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir - Diwygiad i'r Cytundeb Cydweithio a'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Gwasanaethau Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer diwygiad i'r Cytundeb Cydweithio rhwng y Cynghorau partner ar gyfer darparu Gwasanaethau Rheoleiddio a diwygiad i Gynllun Dirprwyo Swyddogaethau'r Cyngor yn dilyn gweithredu'r drefn 'Gweithdrefnau Arbennig' o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Eglurodd fod disgwyl i Lywodraeth Cymru weithredu ei threfn hirddisgwyliedig 'Gweithdrefnau Arbennig' ddiwedd mis Tachwedd 2024, o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Mae Rhan 4 o'r Ddeddf sy'n ymwneud â Gweithdrefnau Arbennig yn creu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr a busnesau sy'n cyflawni gweithdrefnau arbennig yng Nghymru. Nodwyd rôl GRhR wrth weithredu'r drefn Gweithdrefnau Arbennig yn adran 3 yr adroddiad. Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd pwy fyddai'n monitro busnesau i sicrhau cydymffurfiaeth, gan nad oedd yr adroddiad yn glir ynghylch pwy oedd yn gyfrifol. Dywedodd y Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Gwasanaethau Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, er y byddai'r awdurdod yn cael ei ddirprwyo iddi hi ei hun, y byddai hyn wedyn yn cael ei is-ddirprwyo i'r tîm priodol a chymwys o fewn GRhR ar ôl iddynt gwblhau'r hyfforddiant. Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd pwy fyddai'n cyfleu'r newid i'r busnesau. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol dros Wasanaethau Rheoliadol a Rennir ei fod yn cael ei gyfleu o lefel Llywodraeth Cymru yn y camau cychwynnol ond mai'r Awdurdodau Lleol wedyn fyddai'n gyfrifol am gyfathrebu pellach unwaith y byddai'r newid wedi ymwreiddio. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn 1. cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r Cytundeb Cydweithio rhwng y tri chyngor ar gyfer darparu Gwasanaethau Rheoliadol; 2. rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Gwasanaethau Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, i gytuno ar delerau'r Weithred Amrywio i'r Cytundeb Cydweithio ac i drefnu gweithredu'r Weithred Amrywio ar ran y Cyngor;

	3. cymeradwyo'r diwygiad i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau fel y nodir ym mharagraff 3.6 yr adroddiad; 4. nodi y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 20 Tachwedd 2024 yn ceisio gwelliannau i'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Phwyllgor Deddf Trwyddedu 2003.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

398. Blaenraglenni Gwaith y Cabinet, y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Gwasanaethau Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i eitemau gael eu cynnwys ar Flaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Tachwedd 2024 hyd at 28 Chwefror 2025 ac i'r Cabinet nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am yr un cyfnod. Nodwyd pob un o'r tair Blaenraglen Waith yn yr atodiadau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet: yn cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Tachwedd 2024 hyd at 28 Chwefror 2025 yn Atodiad 1: yn nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am yr un cyfnod, fel y dangosir yn Atodiad 2 ac Atodiad 3 yr adroddiad, yn y drefn honno.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

399. Adnewyddu Depo'r Priffyrdd Waterton Parc Afon Ewenni

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad a ddiweddarwyd i'r Cabinet ar y cynnig gwreiddiol i ailadeiladu ac, yn ddiweddarach, adleoli'r Depo'r Priffyrdd yn Waterton. Mae gwaith a wnaed yn ddiweddar, ac adolygiad diweddar o'r cyllid cyfalaf sydd ar gael, wedi arwain at gynnig wedi'i ddiweddaru i gynnal/adnewyddu'r ôl troed presennol o fewn y gyllideb gyfalaf sydd ar gael ar sail blaenoriaeth. Darparodd gefndir i'r adroddiad a dywedodd bod y cyngor wedi cymeradwyo trosglwyddiad o £1,173,530, ers mis Tachwedd 2023, o gynllun Depo Waterton i brosiect Neuadd y Dref Maesteg, gan adael cyllideb sy'n weddill o £6,970,470. Bu diwygiadau eraill i'r gyllideb yn ystod 2024-25, gan gynnwys trosglwyddo cyllid tuag at gost cerbydau gwastraff newydd, a gymeradwywyd gan y Cyngor, gan adael cyllideb gyfredol o £7.091 miliwn (y mae £3.591 miliwn ohono yn gyllid wedi'i sicrhau). Ychwanegodd ei bod bellach yn amlwg nad oedd adleoli Depo'r Priffyrdd i safle/lleoliad yn rhywle arall bellach yn opsiwn fforddiadwy, ac y bydd angen gwneud gwaith adnewyddu ar sail blaenoriaeth o fewn yr ôl troed presennol. Nodwyd yr asedau blaenoriaeth uchaf ar gyfer cynnal a chadw/adnewyddu yn 3.4 yr adroddiad. Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd a oeddem yn hyderus y byddai'r arian ar gael ar gyfer yr asedau blaenoriaeth uchaf. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn hyderus bod hyn yn wir. Gofynnodd yr Arweinydd am eglurder ynghylch adran 8.3 o'r adroddiad a'r geiriad o gwmpas £3.5 miliwn. Aethpwyd i'r afael â hyn gan y Prif Swyddog dros Gyllid, Tai a Newid. Diwygiwyd yr argymhellion yn dilyn hynny, fel y nodir isod. <u>PENDERFYNWYD:</u> bod y Cabinet: - 1. yn nodi y newid dull o gyflawni Depo'r Priffyrdd sy'n deillio o newidiadau i'r gyllideb gyfalaf sydd ar gael, ochr yn ochr â ffactorau amgylcheddol a chwyddiant. 2. rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Gwasanaethau Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, a'r Prif Swyddog dros Gyllid, Tai a Newid, i gwblhau'r gwaith brys i'r ysgubor halen a chyfleusterau eraill a nodwyd, i gaffael a chyflawni'r gwaith angenrheidiol gan ddefnyddio'r cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y Prosiect fel yr amlinellir ym Mharagraff 8.3 yr adroddiad, gyda'r diwygiad i'r geiriad i "ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol o fewn y cyllid cyfalaf sydd ar gael o £3.591 miliwn"

Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

400. Opsiynau Gwasanaeth Gwastraff y Dyfodol

Y Penderfyniad a Wnaed	Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet wneud penderfyniad ar y model ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol, a gofynnodd am ganiatâd i fynd i drafodaethau â Chynllun B i ymestyn y contract presennol yn unol â Rheoliadau Caffael Cyhoeddus fel sefyllfa wrth gefn. Tynnodd sylw at ganfyddiadau ail adroddiad a gomisiynwyd gan Eunomia Research & Consulting Ltd ar opsiynau ailgylchu a gwastraff yn y dyfodol o fis Ebrill 2026. Nodwyd rhagor o wybodaeth yn adran 3 yr adroddiad. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod yr opsiynau i'w hystyried ar hyn o bryd fel a ganlyn: Opsiwn A – symud ymlaen i sefydlu cwmni masnachu awdurdod lleol neu; Opsiwn B – dod â'r gwasanaeth yn fewnol. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd fod yr oedi a oedd wedi digwydd yn anffodus ond bod yr ail adroddiad a gomisiynwyd yn angenrheidiol. Roedd yn credu bod y cynllun wrth gefn yn angenrheidiol wrth i ni gytuno ar y ffordd ymlaen, a byddai hyn yn rhoi peth amser i wneud hynny. Cytunodd y Cabinet ei bod yn bwysig dychwelyd i'r trywydd iawn o ran amserlenni ac felly y byddai'n sefydlu bwrdd pontio gan ddechrau mis Rhagfyr 2024 a fyddai'n cyfarfod bob chwarter. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn • nodi cynnwys yr adroddiad hwn ac Atodiad A sy'n cynnwys dadansoddiad manylach o sut y gallai'r cwmni masnachu awdurdod lleol a'r modelau mewnol weithredu.

	• cymeradwyo bod y gwasanaeth gwastraff yn y dyfodol yn cael ei ddarparu trwy Opsiwn B - darparu'r gwasanaeth yn fewnol. • rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Gwasanaethau Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol a'r Prif Swyddog dros Gyllid, Tai a Newid, i ddechrau gwaith ar unwaith i gychwyn trafodaethau â Chynllun B i ymestyn y contract presennol yn unol â Rheoliadau Caffael Cyhoeddus i ganiatáu digon o amser fel cynllun wrth gefn, pe bai ei angen, ar gyfer gweithredu a symud y model gwasanaeth yn ddidrafferth yn y dyfodol. • Sefydlu bwrdd pontio sy'n dechrau ym mis Rhagfyr 2024 ac i gyfarfod bob chwarter.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

401. Eitemau Brys

Y Penderfyniad a Wnaed	Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

402. Gwahardd y Cyhoedd

Y Penderfyniad a Wnaed	PENDERFYNWYD: Nid oedd yr eitemau canlynol i'w cyhoeddi am eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y diffinnir ym Mharagraffau 14 Rhan 4 a Pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

	Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y Cabinet yn unol â'r Ddeddf ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

403. Cymeradwyo'r Cofnodion Wedi'u Heithrio

Y Penderfyniad a Wnaed	PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion wedi'u heithrio'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22/10/2024 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

404. Gwaredu Ravenscourt

Y Penderfyniad a Wnaed	Roedd y penderfyniad hwn wedi'i eithrio
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

405. Diweddariad am Raglen Adfywio Porthcawl

Y Penderfyniad a Wnaed	Roedd y penderfyniad hwn wedi'i eithrio
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	19 Tachwedd 2024

CABINET - TUESDAY, 19 NOVEMBER 2024

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 17:45.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English